



Cystadleuaeth Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrdd yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru

Cwestiynau cyffredin Categori Uwchradd

Pwy gaiff gymryd rhan yn y gystadleuaeth?

Caniateir i unrhyw ysgol neu sefydliad ieuenctid yng Nghymru gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Mae'r gystadleuaeth hon yn rhan o ymgyrch Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrdd yn Fwy Diogel 2020 Cymru.

Beth ddylai fy ffilm fod amdano?

Thema'r gystadleuaeth yw '**Gwella'r we: Sut i ofalu amdano chi eich hun ac eraill**'.

Mae'r gystadleuaeth yn cynnwys creu **hysbyseb mewn arddull neges i'r cyhoedd** ar gyfer ffrindiau a theulu, yn sôn am sut i edrych ar ôl eu hunain ac eraill ar-lein. Meddyliwch sut gall bod ar-lein wneud i chi deimlo, a meddyliwch am syniadau ac awgrymiadau creadigol am sut i gadw'n ddiogel ac yn iach ar-lein.

Beth mae "mewn arddull neges i'r cyhoedd" yn ei olygu?

Neges er budd y cyhoedd yw neges gwasanaethau cyhoeddus, i godi ymwybyddiaeth o faterion cyhoeddus a newid agwedd ac ymddygiad y cyhoedd tuag atynt. Maent yn addysgu pobl am bynciau pwysig, er enghraifft, sut i groesi'r ffordd, sut i yrru'n ofalus, beth i'w fwyta i gadw'n iach. Gweler enghreifftiau yn y dolenni isod.

[Bwyta'n Gall - Brechwast](#)

[Rheolau'r groes werdd](#)

[Rheolau'r groes werdd 2](#)

[Rheolau'r groes werdd 3](#)

[Paid â gadael i arian dy atal rhag mynd i brifysgol](#) (Cymraeg)

[Siarad am roi organau](#) (Cymraeg)

[PWYLLWCH! Paid ag Yfed a Gyrru](#)

[PWYLLWCH! Paid Gyrru'n Flinedig](#)

[Newid am Oes - Gordewdra mewn Plant](#)

[Bwyta'n Gall - Brechwast](#)

Pa mor hir gall fy ffilm fod?

Ni fydd ceisiadau a fydd yn para mwy na **2 funud** yn gallu cael eu hystyried ar gyfer y categori Uwchradd. Mae'n rhaid cynnwys dilyniannau teitlau a chredydau yn y ffrâm amser hon, os byddwch yn penderfynu defnyddio'r rhain. Os byddwch yn ychwanegu credydau, cadwch nhw'n fyr i osgoi torri i mewn i amser eich ffilm a cofiwch ychwanegu enwau cyntaf yn unig.

Faint o geisiadau gall un ysgol/clwb ieuenctid eu cyflwyno?

Caniateir i ysgolion a sefydliadau ieuenctid gyflwyno mwy nag un ffilm ond **un ffilm yn unig ar gyfer bob dosbarth/grŵp** fydd yn cael ei ganiatáu.

Pa gyfarpar dylwn i ei ddefnyddio?

Mae gan bob ysgol/grwpiau ieuenctid cyfleusterau a mynediad i gyfarpar gwahanol. Gallwch ddefnyddio unrhyw beth o gamera fideo i ffôn symudol. Y cynnwys byddwn ni'n canolbwyntio arno.



Cystadleuaeth Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru

Pa fformat dylai fy ffilm fod ynddo?

Rydym yn argymhell bod ffeil eich ffilm yn y fformat MP4 sy'n golygu HD safonol (H.264 190/1080) a sain o ansawdd CD (AAC audio 44.1Hz 16 bit) fodd bynnag, byddwn yn gallu prosesu ffeiliau eraill hefyd.

Beth os ydw i eisiau ychwanegu sain at fy ffilm?

Dim ond ffilmiau a fydd yn cynnwys cerddoriaeth wreiddiol neu am ddim y gallwn ni eu derbyn. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen ein gwybodaeth am hawlfraint cyn i chi gynnwys cerddoriaeth yn eich ffilm.

Oes angen caniatâd arnaf i?

Oes, bydd eich athro neu eich arweinydd ieuenctid yn fentor i chi drwy gydol y gystadleuaeth. Byddant hefyd yn gyfrifol am gyflwyno'ch ffilm i'r gystadleuaeth. Pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffilm, **gwnewch yn siŵr bod gennych ffurflenni caniatâd cyfryngau ar gyfer yr holl bobl yn eich ffilm**, fel arall, ni fyddwn yn gallu cyhoeddi'ch ffilm ar ein gwefan na'i ddangos yn y Digwyddiad Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel yng Nghaerdydd.

Sut ydw i'n anfon fy ffilm atoch chi?

Dylai pob ffilm gael ei chyflwyno trwy [WeTransfer](#) i onlinesafety@swgfl.org.uk. Mae'n wasanaeth am ddim ar yr we. Pan fyddwn yn lawrlwytho eich ffilm, byddwch yn derbyn hysbysiad a fydd yn cofnodi ein bod wedi derbyn eich cais. Nid ydym yn anfon e-bost i gydnabod ceisiadau.

Sut ydw i'n cyflwyno fy ffurflen gais a'r ffurflen ganiatâd?

Dylech gyflwyno'ch ffurflen gais a'r ffurflen caniatâd gyda'ch ffilm trwy [WeTransfer](#) i onlinesafety@swgfl.org.uk.

Pryd mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno fy ffilm?

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **5pm ddydd Gwener, 6 Rhagfyr 2019**. Ni fydd ffilmiau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Pryd fyddwn ni'n gwybod a ydyn ni wedi llwyddo i gyrraedd y rownd derfynol?

Bydd yr ymgeiswyr sydd wedi llwyddo i gyrraedd y rownd derfynol yn cael gwybod **ddydd Llun, 20 Ionawr 2020**.

Pryd fydd y digwyddiad ar gyfer y rhai sydd yn y rownd derfynol?

Bydd y rownd derfynol yn cael ei chynnal **ddydd Mawrth 11 Chwefror 2020 yn y Digwyddiad Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel yng Nghaerdydd**.